

## Diwedd Blwyddyn

### Darlleniad: Llyfr y Pregethwr 3: 1-8

---

---

Ein Tad sanctaidd, crëwr nefoedd a daear a chynhaliwr pob peth, diolch bod rhai bach ac annheilwng fel ni'n cael dy gyfarch di. Sylweddolwn mai annigonol yw iaith a geiriau i gyfleu ein mawl a'n haddoliad. Cawn ein hunain yn defnyddio cymariaethau dynol i'th ddisgrifio di, a'r rheiny'n rhai sy'n gwbl annigonol. Fel meidrolion, soniwn am dy anfeidroldeb di; fel rhai cyfyng ein gallu, soniwn am dy hollalluogrwydd di; ac fel rhai cyfyng ein gwybodaeth, soniwn hefyd am dy hollwybodaeth di. Mae'r fath syniadau mawreddog y tu hwnt i'n dirnadaeth, ond eto'n gydnabyddiaeth ar ein rhan dy fod di gymaint yn fwy na ni, ac yn absoliwt yn dy gymeriad a'th allu.

Yn ein haddoliad yn awr, O! Dad, cynorthwya ni i'th addoli'n deilwng, sef mewn ysbryd a gwirionedd. Ac er dy fod y tu hwnt i'n hamgyffred ni, goleua ein deall i ganfod yr hyn yr wyt ti'n ei ddweud wrthym amdanat dy hun, yn y cread, yn dy Air, ac yn arbennig yn dy Fab, Iesu Grist. Carem weddio fel y gweddiodd yr Apostol Paul dros yr Eglwys yn Effesus, ar inni gael ein 'galluogi i amgyffred ynghyd â'r holl saint beth yw lled a hyd ac uchder a dyfnder cariad Crist, a gwybod am y cariad hwnnw, er ei fod uwchlaw gwybodaeth'. Er na allwn ddod o hyd i'r ddealltwriaeth iawn, nac esbonio a disgrifio'n llawn faint dy gariad tuag atom yn Iesu Grist, gallwn serch hynny dystio i'n profiad o'th gariad. Bu'r cariad yn ein hamgylchynu, ein cynnal a'n cadw ar hyd y flwyddyn sy'n awr yn dirwyn i'w therfyn.

Ar ddiwedd y flwyddyn, ein Tad, diolchwn i ti am bob bendith ac aberth a ddaeth i bawb ohonom mewn rhyw fodd neu'i gilydd. Bu'n flwyddyn amrywiol ei phrofiadau i nifer ohonom. Blwyddyn o lwyddiant, dathlu a llawenydd i rai; blwyddyn o fethiant, siom, galar a dagrau i eraill. I rai ohonom roedd y llwybr yn un hawdd a gwastad drwy gydol y flwyddyn; ond i eraill yn serth ag anodd iawn. Efallai bod rhai ohonom wedi ei chael yn haws sylweddoli dy bresenoldeb a'th gariad oherwydd amgylchiadau; efallai i lwyddiant a llawenydd beri inni gyfrif ein bendithion; neu efallai mai'r 'storm fawr' ddaeth â'r pethau gorau inni, gan ein gorfodi i

bwyso mwy arnat ti. Wrth gwrs, ein Tad, y mae amser pan fyddwn yn dy amgyffred di, a hynny mewn hawddfyd ac adfyd. Yng nghanol ein llwyddiant a'n llawenydd bu inni dy anghofio di ambell dro; ac yng nghanol dagrau a siom nid oeddem bob amser yn ymwybodol o'th bresenoldeb a'th gariad. Ambell dro bu'r profiad yn brawf ar ein ffydd. Ac eto, Arglwydd, drwy'r cyfan yr oedd rhyw nerth, rhyw sicrwydd, rhyw dangnefedd, ystyfnig bron, yn ein cadw rhag anobeithio'n llwyr. Yr oeddet ti yno gyda ni, O! Dad, er bod y dagrau weithiau'n ein dallu i hynny.

‘Pan fyddo beichiau bywyd yn trymhau,  
A blinder byd yn peri im lesgáu;  
Gwn am y llaw a all fy nghynnal i,  
A'i gafael ynof er nas gwelaf hi.’

Diolch i ti am dy gariad diball ac am dy ofal cyson trosom. Cydnabyddwn nad ydym yn haeddu dy fendithion, ond gorfoleddwn yn y gras a'r gynhaliaeth a gawsom yn dymhorol ac ysbrydol. Ac wrth inni yng nghanol ein digonedd ddiolch i ti am dy holl fendithion inni cofiwn nad yw'n agos cystal byd ar fwyafrif trigolion y ddaear. I filiynau o bobl mewn sawl rhan o'r byd bu'r flwyddyn hon drwyddi'n un frwydr fawr i gadw corff ac enaid ynghyd. Gwelsom y tloidi, y newyn a'r syched; gwelsom effeithiau rhyfel, trais a gormes. Ac er ein bod yn teimlo na allwn wneud fawr ddim, helpa ni i weddio, i ddylanwadu ar y rhai sydd mewn grym, i rannu ac i estyn cymorth yn enw Iesu Grist. Stiwardiaid ydym ni, ein Tad, a'n cyfrifoldeb i ti ac i gyd-ddyn yn fawr oherwydd nifer y bendithion yr wyt ti'n eu hymddiried i'n gofal.

Gwelsom y tloidi a'r angen yn nes adref hefyd, O! Dad - ar ein strydoedd, yn y ciw dôl, ac yn yr ystadegau sy'n dangos argyfwng economaidd, personol, teuluol, moesol ac ysbrydol pobl ein gwlad. Fel y daw'r flwyddyn i'w diwedd, gweddiwn y bydd datrys ar y problemau sy'n gymaint o straen ar wlad sy'n honni bod yn wareiddiedig a Christnogol.

Derbyn ein diolch O! Dad, am dy holl fendithion yn ystod y flwyddyn, a boed i eraill gael y fendith hefyd o'u profi a'u mwynhau yn ystod y flwyddyn sydd ar y trothwy. Gofynnwn hyn yn enw ein Harglwydd a'n Gwardwr bendigedig, Iesu Grist.  
Amen.

*Dafydd Roberts*